OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 559 (Cy.79)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) (Diwygio) 2003

Wedi'i wneud	- -	*6 Mawrth 2003*
Yn dod i rym	- -	*9 Mawrth 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 30(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(**1**), ac a freiniwyd ynddo bellach(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enw a Chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) (Diwygio) 2003 a daw i rym ar 9 Mawrth 2003.

Diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) 2000

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) 2000(**3**) yn unol â darpariaethau'r erthygl hwn.

(2) Mewnosodir y diffiniad canlynol yn y man priodol yn erthygl 2(1):

"Ystyr "Annex XVII" yw Annex XVII i Reoliad y Cyngor 2341/2002 dyddiedig 20 Rhagfyr 2002 yn pennu ar gyfer 2003 y cyfleoedd pysgota a'r amodau cysylltiedig ar gyfer stociau penodol o bysgod a grwpiau o stociau pysgod sydd yn gymwys yn nyfroedd y Gymuned ac, ar gyfer cychod y Gymuned, mewn dyfroedd lle y mae cyfyngu haldiadau yn ofynnol;".

(3) Ychwanegir, ar ddiwedd y diffiniad o "Rheoliad 2847/93" yn erthygl 2(1), y geiriau "ac fel y'i cymhwysir gan baragraff 12 a'i cyfyngir gan baragraff 20 o Atodiad XVII".

(4) Mewnosodir, yng ngholofn 3 o bob cofnod ar gyfer eitemau 2(h), (i), (l) ac (ll) o'r Atodlen, ar ôl y geiriau "15 metr" lle bynnag yr ymddangosant, y geiriau "neu, i'r graddau sy'n gymwys o ganlyniad i baragraff 12 o Atodiad XVII, yn gyfartal i 10 metr neu'n fwy na hynny)".

(**1**) 1981, p.20.
(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" (fel y'u diffinir gan yr adran honno) mewn perthynas ag adran 30 o Ddeddf 1981, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol a oedd yn gyfrifol am y diwydiant pysgod môr yng Nghymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru .
(**3**) O.S. 2000/1075 (Cy.69).